

CYFARFOD	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD	9 Gorffennaf 2019
TEITL	Ymgynghoriad: <i>Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft</i>
PWRPAS	Rhannu gwybodaeth ac ystyried sylwadau'r aelodau fel rhan o'r broses o lunio ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad
AWDUR	Debbie Anne Williams Jones
AELOD CABINET	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

1. CEFNDIR

1.1. Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i baratoi a chyflwyno **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** i Lywodraeth Cymru (CSGA). Daeth y cynlluniau cyntaf hyn yn weithredol ar 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

1.2 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau polisi allweddol ym maes Y Gymraeg mewn Addysg:

Cymraeg 2050,

Dyma strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sydd yn nodi'r weledigaeth o greu miliwn o siaradwyr, ynghyd â chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yw un o'r prif ddulliau ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg newydd. O ganlyniad, ystyrir Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn allweddol ar gyfer cefnogi gweledigaeth y Llywodraeth o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl (Cynllun Gweithredu 2017-21)

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi'r camau sydd i'w cymryd i weithredu diwygiadau pellgyrhaeddol i'r system addysg yng Nghymru. Y nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar gwricwlwm o'r radd flaenaf a'u bod yn mwynhau dysgu ac addysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo mewn cymuned addysg gydweithredol ac arloesol a gaiff ei harwain yn effeithiol. Mae datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gwella addysgu a dysgu Cymraeg i bob dysgwr wrth wraidd y diwygiadau hyn, ac felly ystyrir bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn allweddol i hynny.

Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn ei fywyd bob dydd. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, bydd angen sawl cam gweithredu ar gyfer creu darpariaeth gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau i ddod. Ceir yma chwech o egwyddorion arweiniol fydd yn meithrin dealltwriaeth gyffredin o rôl addysgu a dysgu Cymraeg, a thrwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob ysgol yng Nghymru, ac felly ystyrir Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gyfrwng i ategu a gwireddu'r weledigaeth yma.

2. DOGFEN YMGYNGHORI

- 2.1 Er mwyn cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod angen gwneud rhai newidiadau i'r ffordd y cynllunnir addysg cyfrwng Cymraeg.
- 2.2 Sefydlwyd Bwrdd Cefnogi annibynnol gan Lywodraeth Cymru rhwng Mai 2018 a Mawrth 2019 i ystyried y newidiadau deddfwriaethol oedd eu hangen i gefnogi gweledigaeth *Cymraeg 2050*. Daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oedd y strwythur presennol sy'n cynnal y gwaith cynllunio statudol ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg drwy'r CSGA yn cefnogi'r uchelgais hirdymor ar gyfer yr iaith Gymraeg bellach.
- 2.3 O ganlyniad, rhwng 30 Mai 2019 a 2 Medi 2019, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfnod ymgynghori ar *Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau – Drafft*. Dyma linc i'r ddogfen ymgynghori: [Dogfen Ymgynghori](#)

3. Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG

- 3.1 Amlinellir nawr brif newidiadau a ystyrir fel rhan o'r ddogfen ymgynghori:
 - Ymestyn hyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg o'i gylchred 3 blynedd presennol i 10 mlynedd;
 - Dileu'r ddyletswydd i gynllunio ar sail ganlyniadau mesur y galw ymysg rhieni
 - Gofyniad i awdurdodau lleol osod uchelgais i'w hunain dros 10 mlynedd a chynllunio eu darpariaeth addysg Gymraeg ar sail targed clir;
 - Disgwyliad i gyfrifo'r targed yn unol â'r fethodoleg a gyflwynir yn y canllaw statudol;
 - Newidiadau i gynnwys y CSGA (gan gynnwys gwell cysylltiad rhwng y weledigaeth a'r targed)
 - Symud i fonitro a gwerthuso cynnydd yn barhaus: adroddiadau cynnydd blynyddol cryno
 - Canllaw drafft gyda'r nod o gynnig cefnogaeth ac arweiniad ymarferol i awdurdod lleol baratoi cynllun.

3.2 Bwriedir manylu ymhellach ar y newidiadau hyn a'r ystyriaethau sydd yn berthnasol i Wunedd mewn cyflwyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ei hun.

4. **ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau:

- Gyflwyno unrhyw sylwadau i'w cynnwys fel rhan o ymateb ffurfiol Gwunedd i'r ymgynghoriad ar *Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft*